


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Arbennig Cyngor Tref Porthmadog 18.30 Tachwedd 15 2022 **Ystafell Groeso, Y Ganolfan ac ar Microsoft Teams.**

Cyflwyniad gan Andrew Basford, Arbenigwr Prosiectau a Chyflenwi Rhaglenni , a John Meirion Davies, Uwch Beiriannydd, o Gyfoeth Naturiol Cymru i adrodd yn ôl ar ddiweddariad gwaith ymchwil Cyfoeth Naturiol Cymru ar Risg Llifogydd ardal Porthmadog.

Presennol :- Cynghorwyr :- Alwyn Gruffydd, Aled Griffith, Connor Westwood, Carol Hayes, Llinos Murphy, Gwilym Jones, Michael Roberts
Marian Roberts (Clerc)

Aelodau o'r cyhoedd :- Selwyn Griffiths, Richard Williams

Ymddiheuriadau :- Cynghorwyr :- Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Dr Melfyn Edwards

Absennol:- Cyng Sandra Bodden Jones

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Cyng Llywelyn Rhys ac yn dilyn ymddiswyddiad Selwyn Griffiths fel Is-Gadeirydd cytunodd Cyng Alwyn Gruffydd i gadeirio'r cyfarfod.

Dechreuodd drwy groesawu Cyng Connor Westwood i'w gyfarfod cyntaf fel Cynghorydd Tref ac i Richard Williams fel Cyn-Gynghorydd Tref. Roedd yn croesawu Andrew Basford i arwain y cyflwyniad ac i Gareth Evens (roedd John Meirion Davies yn ymddiheuro am fethu bod yn bresennol) i'w gynorthwyo i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa risg llifogydd yn ardal Porthmadog.

Dyma grynodedeb o'r cyflwyniad Powerpoint a ddangoswyd :-

Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd Porthmadog Diweddariad Cyngor Tref Porthmadog 15 Tachwedd 2022

Tîm Prosiect CNC :-

Andrew Basford Rheolwr y Prosiect

Sharon Parry Swyddog Cefnogi y Prosiect

John Meirion Davies Uwch Beiriannydd

Y Prosiect :-

Lleihau'r perygl o lifogydd i bobl a'u cartrefi o'r prif afonydd a'r môr dros y 100 mlynedd nesaf. Cydymffurfio â dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Yr Her :-

- Lefelau'r môr yn parhau i godi
- Tywydd eithafol yn amlach
- Isadeiledd sy'n heneiddio
- Tir isel sydd wedi ei adennill

Diffinio'r Broblem :-

- Adolygu cofnodion ac adroddiadau llifogydd o'r gorffennol
- Gwneud rhagor o fodelu afonydd ac arfordiroedd
- Arolygon amgylcheddol arbenigol ac ymgysylltu

Dangoswyd yma luniau panoramig o ardal Porthmadog yn ystod llifogydd Storm Desmond yn 2015. Profwyd yn ddiweddar gyda thymheredd Porthmadog yr uchaf yn y wlad ar Sul y Cofio eleni fod effeithiau newid hinsawdd a chynhesu byd eang yn factor y mae pawb bellach yn ymwybodol ohono. Dangoswyd wedyn animeiddiad o lifogydd unwaith mewn canmlynedd yn ardal Porthmadog lle roedd rhan sylweddol o'r ardal wedi ei effeithio. Pwysleiswyd fod tywydd eithafol sy'n achosi llifogydd fel hyn yn fwy a mwy tebygol o ddiwydd.

Sylwadau o fis Mawrth 22 :-

- Y byddai 2 giât newydd ar y dorau Mawr yn hwyluso gwagio dŵr o'r Cob.
- Y byddai sicrhau fod y Dorau presennol yn gweithio'n iawn yn gwella'r sefyllfa
- Bod y ffordd osgoi wedi gwaethygu'r sefyllfa ac na fu erioed y fath lifogydd ar y Traeth cyn y ffordd osgoi.
- Fod angen clirio silt o'r Glaslyn ac o'r Cyt i sicrhau fod y dŵr yn llifo ac yn gwagio.
- Y gellid cau ffordd y Cob, gosod melinau gwynt ar y Cob i bweru pwmp i wagio'r dŵr allan i'r môr.

Mae gwaith y prosiect ar y gweill ers mis Mawrth 22 a bydd rhaid i CNC wirio'r model llifogydd pan fydd gwybodaeth newydd ar gael:

- Hydroleg ar gyfer gorsaf fesur Beddgelert
- Lidar wedi'i ddiweddarau
- Arolygon ychwanegol o asedau

Bydd allbynnau terfynol y model llifogydd yn barod ym mis Ionawr 2023

Amserlen y Prosiect

<p>Gaeaf 2022</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r wybodaeth bresennol •Arolygon Arbenigol •Modelu afonydd a'r arfordir •Cyfarfodydd rhanddeiliaid •Cylchlythyr cymunedol •Deall ar sail Gwybodaeth 	<p>Gwanwyn 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu Rhestr Hir •Modelu amlinellol •Cyfleoedd partneru •Astudiaethau amgylcheddol •Ymchwiliadau safle •Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol
<p>Haf 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> • Modelu manwl •Dadansoddi cost a budd •Asesiadau amgylcheddol •Ymgynghori cyhoeddus pellach •Cyswllt pellach â rhanddeiliaid •Dewis Rhestr Fer 	<p>Hydref 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amlinellu'r dyluniad a ffefrir •Asesiadau amgylcheddol •Ystyriaethau tirwedd •Ymgynghori cyhoeddus pellach •Cyswllt pellach â rhanddeiliaid •Cyflwyno'r Opsiwn a Ffefrir
<p>Gaeaf 2023</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dogfennu tystiolaeth •Manylion gwneud penderfyniadau •Ymgysylltu â'r cyhoedd •Fforddiadwyedd •Cyfleoedd partneru •Cyflwyno achos busnes 	

Gaeaf 2022

Mapio rhanddeiliaid

- Diffinio'r Cynllun Ymgysylltu
- Cyfarfodydd Rhanddeiliaid
- Cylchlythyr Cymunedol

Ionawr 2023

Ymgynghori ffurfiol ar yr opsiynau

- Gweithgareddau cymunedol ar gyd-gynllunio
- Cyfarfodydd Rhanddeiliaid
- Cylchlythyr Cymunedol

Yn dilyn gyrru llythyr cyhoeddus i drigolion Porthmadog ym mis Rhagfyr 2022, ym mis Ionawr 2023 ceir cyfnod o ymgynghori lle bydd CNC yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus i egluro'n well beth fydd oblygiadau'r prosiect.

Cytunwyd bod y mater yn un difrifol iawn i bob aelod o gymuned Porthmadog a'i bod yn bwysig cyflwyno'r wybodaeth yn glir ac yn ffeithiol ond heb godi dychryn na rhoi poen meddwl i'r gymdogaeth.

Wedi'r cyfnod ymgynghori bydd CNC yn cyflwyno Cynllun Busnes i Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud cais am fuddsoddiad i ariannu'r cynllun ar y cyd â'r YGC ac asiantaethau eraill.

Ar ddiwedd y cyflwyniad gwahoddwyd cwestiynau gan y Cynghorwyr.

Fyddai clirio'r silt o'r harbwr yn gwella'r sefyllfa?

Fyddai clirio'r harbwr ddim yn cael effaith ar y dŵr sydd yn hel yn aber afon Glaslyn gan fod y llif peryglus yn dod o'r afon ac nid o'r môr. Hefyd nid oes gan CNC y peiriannau angenrheidiol i glirio silt o'r harbwr.

Sut fyddai CNC yn adeiladu strwythur i ddal y dŵr yn ei le?

Nid oes sustem bwmpio ar y Dorau mawr ar hyn o bryd – byddai hyn yn opsiwn neu efallai melinau gwynt ar y Cob i bweru cynllun pwmpio dŵr allan i'r môr. Mae angen sustem o rybudd llifogydd yn lleol a gellid adeiladu morglawdd i nadu'r dŵr rhag llifo i'r tir cyfagos. Y sialens i'r ardal ydi "tide-blocking".

Fyddai'r twnelu arfaethedig gan y Grid Cenedlaethol yn ardal Minffordd ddim yn gallu cyflenwi rwbell/creigiau /gwastraff er mwyn adeiladu morglawdd?

Byddai CNC yn falch iawn o ddefnyddio deunydd lleol ar gyfer unrhyw adeiladwaith ac maent yn awyddus iawn i gadw'r gweithlu a'r deunyddiau adeiladu mor lleol â phosibl. Maent hefyd yn ymwybodol iawn o'r angen i barchu harddwch naturiol a threftadaeth yr ardal wrth lunio eu cynlluniau.

Ar ddiwedd y cyfarfod diolchwyd unwaith eto i Andrew Basford ac i Gareth Evens am eu cyflwyniad diddorol ac addysgiadol. Edrychir ymlaen i'w croesawu unwaith eto yn y flwyddyn newydd er mwyn cael diweddariad ar y sefyllfa.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.45

Marian Roberts (Clerc)

16.11.22

